# *Atodiad 13 – Ymatebion a dderbyniwyd i'r ACI/ARC sy'n cyd-fynd â'r CDLl Diwygiedig Ail Adneu*

Lluniwyd y ddogfen hon er mwyn casglu at ei gilydd yr ymatebion a wnaed i'r Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig (ACI) ac Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (ARC) yr 2il Gynllun Datblygu Lleol Diwygiedig Adneuo (CDLld), a gyhoeddwyd ar gyfer cynnal ymgynghoriad ar 17/02/2023.

## Crynodeb: Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig

Cyflwynwyd cyfanswm o 12 sylw yn ystod yr ymgynghoriad ar yr ACI, a chafwyd ymatebion oddi wrth saith ymgynghorai yn cynnwys Llywodraeth Cymru, Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro (APCASB), a Grŵp Gweithredu Trigolion Sir Gaerfyrddin (CRAiG), ynghyd ag aelodau'r cyhoedd (Tabl 1). Wedi eu harchwilio, barnwyd fod wyth sylw yn berthnasol yn benodol i'r ACI (ynghylch materion CDLld ac o'r herwydd fe'u trosglwyddwyd i Swyddogion Blaengynllunio i'w hadolygu). O blith y sylwadau perthnasol a wnaed, roedd themâu cyffredin yn cynnwys cael gwared ag Ardaloedd Tirwedd Arbennig ac anghysonderau mewn data gwaelodlin (e.e., yn wreiddiol defnyddio'r Dosbarthiad Tir Amaethyddol dangosol (*nid rhagfynegol)*.


## Crynodeb: Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd

Cyflwynwyd cyfanswm o 18 sylw yn ystod yr ymgynghoriad ar yr Atodiad i'r ARhC, a chafwyd ymatebion oddi wrth Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC), Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro, Dŵr Cymru, a Llywodraeth Cymru (Tabl 2). Roedd y rhan fwyaf ohonynt yn ymwneud â ffosffadau, yn ogystal â materion eraill y mae angen rhagor o eglurder yn eu cylch a mân gywiriadau/cryfhau geiriad.

Ni chafwyd unrhyw sylwadau pellach ar Adroddiad yr ARC (fel y'i diwygiwyd gan Atodiad A yn Atodiad yr ARC, ac yr ymgynghorwyd arno ynghynt yn ystod y fersiwn adneuo cyntaf), ac eithrio cydnabyddiaeth oedd yn mynegi cefnogaeth i'r newidiadau a wnaed yn dilyn yr ymgynghoriad blaenorol (gweler HRAREP15).

**Tabl 1. Crynodeb o ymatebion i’r ymgynghoriad ar yr ACI. Mae'r cyfeirnodau'n cyfeirio at Atodiad A yr Adendwm ACI (Chwefror 2024).**

| Cyf | Ymgynghorai | Sylw Ymgynghorai (fel mewn italig) | Ymateb/Gweithredu |
|---|---|---|---|
| ISAREP1 | Neil Hemington [5816]<br><br>Llywodraeth Cymru [2782] | Darn a gymerwyd o dudalen 11 llythyr dyddiedig 12fed Ebrill:<br><br>*Categori B Tir Amaethyddol Gorau a Mwyaf Amlbwrpas (BMV): (TAN 6 Atodiad B1, Cymru’r Dyfodol: Cynllun Cenedlaethol 2040 Polisi 9 a PPW 3.58 a 3.59) Adroddiad ACI: Caiff polisi tir amaethyddol BMV ei ystyried yn rhannol o dan Amcan 7 yr ACI 7 – Priddoedd. Nid yw’n eglur faint o bwys sydd i BMV yn Amcan 7, sut roddwyd sylw i’r polisi yn yr ACI na sut ddefnyddir y dystiolaeth ar gyfer yr arfarniad. Nid oes unrhyw dystiolaeth i ddangos sut roddwyd ystyriaeth i bolisi BMV yn yr asesiad o’r strategaeth ofodol, y broses dewis safleoedd na sut mae’r dewisiadau a wnaed yn y cynllun yn effeithio ar yr adnodd BMV.*<br><br>*Yn “Tabl 24 – Crynodeb o effeithiau Eilaidd, Cronnol a Synergistaidd pob polisi a dyraniad safle yn y cynllun” dywedir ar gyfer ACI – Pridd: “Er ei fod yn hyrwyddo adfywio tir llygredig, bydd colledion cronnol o adnoddau cyfyngedig o bridd o ansawdd trwy ddatblygu ar safleoedd tir glas (ac mae’r rhain yn cael sylw blaenllaw trwy gydol yr ALC yn ogystal ag ambell enghraifft o fawndir) yn sylweddol. Er hynny, mae’r fframwaith dosbarthiad aneddiadau yn sicrhau nad yw effeithiau negyddol yn digwydd yn ormodol mewn unrhyw un ardal a’i fod yn fwy tebygol o arwain at ddefnyddio caeau tir brown gwasgaredig ledled y Sir.” (Ychwanegwyd pwyslais). Nid yw’n amlwg beth yw’r BMV neu’r adnodd mawndir a sut fydd yn cael ei effeithio gan y cynllun.* | *Cynhyrchwyd Papur Pwnc pwrpasol yn y cyfamser. Mae hwn yn esbonio sut cafodd y gofynion BMV eu hystyried wrth asesu cynigion yr holl safleoedd.*<br><br>*Dylid diwygio elfennau yn gysylltiedig ag Amcan 7 ACI trwy gydol y ddogfen, gan adlewyrchu Nodyn Canllaw BMV (Fersiwn 2.1 – cyhoeddwyd Mai 2021) a’r Map Rhagweld Dosbarthiad Tir Amaethyddol (Cymru).*<br><br>*Hefyd, dylid diweddaru proformas asesiadau o safleoedd unigol i adlewyrchu canfyddiadau’r Papur Pwnc.*<br><br>Dylid diweddaru’r data gwaelodlin (Atodiad B) yn unol â’r camau a gymerwyd.<br><br>Er y bernir fod y rhan fwyaf o’r cynigion tir gradd 2 a 3a BMV wedi cael eu hasesu’n briodol yn barod (-), dylid eu hail-raddio yn unol â hynny (megis y crynodeb yn Nhabl 24).<br><br>Mae hyn yn effeithio ar safleoedd yn cynnwys priddoedd amaethyddol Gradd 2 *(PrC2/h22, SeC5/h2, PrC2/E2(iv), PrC2/E2(i), SeC4/h1, PrC2/E2(v), SeC5/h1, SuV22/h1, PrC2/E2(ii), SeC7/h4, SeC6/h1)* a Gradd 3a *(PrC1/MU1, SeC15/h1, SeC20/MU1, SeC20/h2, SuV8/h1, SeC20/h1, SuV17/h1, SeC19/h2, PrC2/E2(vi), SeC12/h1, SeC18/h6, PrC1/h8, PrC2/E2(viii), PrC1/E1(ii), SuV18/h1, SuV63/h1, PrC1/MU2, SuV15/h1, PrC1/E1(iii), PrC1/h7, PrC1/h14, PrC1/E1(i), SeC8/h3, SeC19/E2, PrC2/h23, PrC2/E2(ii), PrC2/h22, PrC1/h15, SuV61/h1, SeC15/h2, PrC2/E2(i), SeC12/h2).*<br><br>Dylid diweddaru Tabl 24 yn unol â hynny. |

<table>
<tr><th>Cyf</th><th>Ymgynghorai</th><th>Sylw Ymgynghorai (fel mewn italig)</th><th>Ymateb/Gweithredu</th></tr>
<tr><td></td><td></td><td></td><td>Nid oes ond un safle yn gysylltiedig â mawndiroedd - Safle Adfywio a Defnydd Cymysg Nant y Caws (PrC1/MU3). Gan ddefnyddio Map Mawndiroedd Cymru <https://datamap.gov.wales/layers/geonode:peatlands_of_wales_scg8>u, gwelwyd fod y safle yn gorchuddio arwynebedd mawndir o 2.429 ha (2.78% o arwynebedd y safle mewn ardaloedd ymarferol). Pan gyflwynir cais cynllunio, dylid ystyried lliniaru lefel-prosiect er mwyn cadw'r adnoddau hyn.<br><br><br><br>Cyfeirir at Gyf 3, 16-18.</td></tr>
<tr><td>ISAREP2</td><td>Megis uchod</td><td>Darn a gymerwyd o dudalen 11 llythyr dyddiedig 12fed Ebrill:<br>ACI Atodiad B – Gwybodaeth Gwaelodlin: Fe nodir yn P41 "Yn ôl y data Dosbarthiad Tir Amaethyddol (ALC) sydd ar gael, nid oes unrhyw dir Gradd 1 a dim ond ychydig dir Gradd 2 yn Sir Gaerfyrddin. Ceir clytwaith o dir Gradd 3 tua de a de ddwyrain y sir yn dilyn dyffryn afon Tywi, yn ymestyn o Lanymddyfri yn y dwyrain, ac ymlaen i Langadog, Llandeilo a Chaerfyrddin. Mae'r rhan fwyaf o dir yn Sir Gaerfyrddin yn dir Gradd 4, ac nid oes ond cyfran fechan iawn o dir Gradd 5 tua gogledd ddwyrain y Sir. Dylech edrych ar y Map Rhagweld Dosbarthiad Tir Amaethyddol 2 i</td><td>Dylid newid y geiriad yn Atodiad B (tudalen 41):<br><br>Yn ôl Fersiwn 2 o'r Map Rhagweld Dosbarthiad Tir Amaethyddol (ALC), nid oes ond ardal fechan iawn o dir Gradd 1 a Gradd 2 yn Sir Gaerfyrddin. Dosberthir y rhan fwyaf o'r pridd yn Radd 3b, 4, ac yn Anamaethyddol (fel y nodir yn y Tabl isod).<br><br><table><tr><th>ALC Grade</th><th>Area (Ha)</th></tr></table></td></tr>
</table>

<table>
<tr><th>Cyf</th><th>Ymgynghorai</th><th>Sylw Ymgynghorai (fel mewn italig)</th><th>Ymateb/Gweithredu</th></tr>
<tr><td></td><td></td><td>gael rhagor o fanylion." (Ychwanegwyd pwyslais). Er y cyfeirir at y Map Rhagweld Dosbarthiad Tir Amaethyddol (v2), nid yw'n amlwg sut cafodd ei ddefnyddio. Nid yw'r datganiad yn rhoi manylion am yr adnodd BMV sydd o fewn ffiniau'r awdurdod ac nid yw'r wybodaeth waelodlin a ddefnyddiwyd wedi rhannu tir ALC gradd 3 i 3a a 3b (BMV a heb fod yn BMV), sy'n awgrymu efallai y defnyddiwyd gwybodaeth sydd wedi dyddio.</td><td><table>
<tr><td>Non-Agricultural</td><td>35093.156</td></tr>
<tr><td>1</td><td>9.165</td></tr>
<tr><td>2</td><td>520.476</td></tr>
<tr><td>4</td><td>59270.802</td></tr>
<tr><td>5</td><td>21170.404</td></tr>
<tr><td>3a</td><td>17169.167</td></tr>
<tr><td>3b</td><td>75638.112</td></tr>
<tr><td>Urban</td><td>5549.273</td></tr>
</table><br>Cyfeirir at Gyf 3.</td></tr>
<tr><td>ISAREP3</td><td>Mr JR Harrison [539]</td><td>Rwyf yn cefnogi'r ddogfen ynghylch newid ffiniau pentref Llanllwch SR/098/002 ac nid wyf yn credu y caiff y newid hwn effaith andwyol ar y pentref na'r ardal o'i gwmpas gan nad oes ond 1 eiddo</td><td>Mae'r sylw hwn yn cyfeirio'n benodol at y CDLld ei hun, ac nid yw felly'n gwbl briodol iddo gael ei adolygu yng nghyd-destun yr ACI yn unig. Trosglwyddwyd y sylw hwn at y Swyddogion Blaengynllunio.<br><br>Sylw CDLl: 5799</td></tr>
<tr><td>ISAREP4</td><td>Mrs Lindsey Harrison [5502]</td><td>Ysgrifennaf i gefnogi'r ychwanegiad at ffin y pentref yn safle ymgeisio LLANLLWCH SR/098/002 yn y CDLl2 diwygiedig. Y cynnig yw adeiladu 1 byngalo ymddeoliad inni, gan inni fyw yma am 26 mlynedd. Nid wyf yn credu y byddai datblygu ar y safle hwn yn cael effaith andwyol ar gymeriad a gosodiad yr anheddiad.</td><td>Megis uchod<br><br>Sylw CDLl: 5800</td></tr>
<tr><td>ISAREP5</td><td>Patricia Morgan-Black [5837]</td><td>Mae perygl nad ydym yn gwerthfawrogi pa mor hardd a thrawiadol o brydferth yw ardal Dyffryn Tywi, gan gynnwys Llanymddyfri a Llandeilo. Er ei bod yn annhebyg y gellid rhoi statws gwarchodol i'r ardal gan fod gan gymaint o'r ardaloedd cyfagos statws dynodedig, ni ddylai hynny olygu y dylid caniatáu datblygu yn yr ardal. Mae pawb yn deall yr angen am ddatblygu cynaliadwy, ac mae'n amlwg fod ynni adnewyddadwy yn bwysig. Fodd bynnag, wrth gynllunio ac adolygu cynlluniau mae'n rhaid i'r ALl ystyried effaith amgylcheddol ac economaidd lawn unrhyw ddatblygu. Er enghraifft, gellid gosod offer cludo trydan o'r Gororau i Gaerfyrddin ar y ddaear ar hyd y rheilffordd bresennol. Gallai hynny gynnig manteision economaidd ychwanegol i Trafnidiaeth Cymru a helpu i gynnal y rheilffordd. Mae codi peilonau i gludo'r trydan yn debygol o effeithio ar botensial twristiaeth yr ardal (sydd eisoes yn gorfod cystadlu gyda dau barc cenedlaethol ac AOHN). Mae economïau'r ddwy dref angen incwm</td><td>Megis uchod<br><br>Sylw CDLl: 5801</td></tr>
</table>

| Cyf | Ymgynghorai | Sylw Ymgynghorai (fel mewn italig) | Ymateb/Gweithredu |
|---|---|---|---|
| | | *o'r sector twristiaeth i wneud eu busnesau'n hyfyw. Mae'n bwysig fod unrhyw ddogfennau neu benderfyniadau cynllunio yn adlewyrchu'r angen i ddiogelu cefn gwlad ac ychwanegu at ei harddwch, yn hytrach nag agor y drysau i ddatblygiadau pa mor gynaliadwy bynnag y maent yn ymddangos. Mae'n ddiddorol fod pobl sydd eisiau sicrhau datblygiad ffordd o fyw oddi ar y grid yn gorfod cyflwyno ceisiadau cymhleth tra'i bod yn ymddangos fod gwanhau statws Dyffryn Tywi a datblygu peilonau yn gysylltiedig, sy'n syndod gan ei bod yn ymddangos fod y gymuned yn gwrthwynebu'r math yma o ddatblygiad yn yr ardal yn gryf iawn.* | |
| ISAREP6 | Janice Morgan (Clerc ar ran) Cyngor Cymuned Cilymaenllwyd [29] | *Sylwadau cyffredinol yw'r canlynol, gan Gyngor Cymuned Cilymaenllwyd yn ymateb i'r ymgynghoriad ar Ail Gynllun Datblygu Lleol Adneuo Diwygiedig Cyngor Sir Caerfyrddin. Mae'r sylwadau yn perthyn yn benodol i'r 3 safle o fewn cymuned Cilymaenllwyd a ddyrannwyd yng Nghlwstwr 6, fel y nodwyd yn nhabl 23 (tudalen 87 o'r ddogfen ymgynghorol), sef: SuV44/h1 Tir i gefn o Talar Wen SuV55/h2 Tir i gefn Maes Glas SuV55/hs Tir i'r Gogledd o Dafarn Cross Inn I ddechrau, mae tai Efailwen a Glandy Cross yn cael problemau gyda'u cyflenwad dŵr yn achlysurol oherwydd gwasgedd dŵr isel iawn, yn enwedig mewn cyfnodau o sychder, sy'n creu llawer o rwystredigaeth ymysg trigolion. Mae hyn felly'n codi'r cwestiwn a all y datblygiadau arfaethaedig yn y safleoedd dan sylw ymdopi â'r galw cynyddol hwn am ddŵr? Mae'r systemau carthffosiaeth yn hunangynaliadwy ond mae'r system ddŵr yn barod o dan straen. Teimlir nad yw'r isadeiledd presennol yn ddigonol fel ag y mae. Mae'r pridd hefyd yn yr ardal yn llawn clai sy'n achosi problemau draenio a allai achosi llawer o ddŵr i gronni ar y ffyrdd mewn cyfnodau o law trwm. Rhaid hefyd ystyried yr effaith ddiwylliannol, ieithyddol a chymunedol ar y pentref a'r gymuned ehangach. Mae sawl tŷ ar werth yn y pentref ar hyn o bryd a nifer helaeth o'r rhain wedi'u prynu eisioes gan bobl sydd wedi symud i'r ardal, gan amlaf yn ddi-Gymraeg. Mae natur ieithyddol yr ysgol gynradd leol o ganlyniad wedi newid yn syfrdanol ers y 5 mlynedd diwetha. Fodd bynnag, mae nifer o'r tai sydd ar werth yn ddrud ac nid ydynt yn cael eu hystyried yn dai fforddiadwy. Efallai byddai'r datblygiad yn denu, neu'n galluogi pobl leol a theuluoedd â chanddyn nhw blant ifanc, i brynu, aros neu ddychwelyd i'r ardal, am bris teg wrth gwrs. Teimlir yn gryf bod angen ystyried sut bydd y Cyngor Sir yn mynd ati i roi blaenoriaeth i bobl leol sydd wedi cael eu magu yn yr ardal. Ni fyddai* | Megis uchod<br><br>Sylw CDLl: 5578-80, 5582-84 |

| Cyf | Ymgynghorai | Sylw Ymgynghorai (fel mewn italig) | Ymateb/Gweithredu |
|---|---|---|---|
| | | *datblygwr sy'n adeiladu tai ar y tir, ac yna'n eu gwerthu ymlaen am bris sydd y tu hwnt i gyrraedd pobl leol, yn datrys y sefyllfa o gwbl. Efallai y byddai'n fuddiol i'r Cyngor ystyried y posibilrwydd o adeiladu tai i'w rhentu am bris teg wrth wneud yn siwr mai pobl sydd wedi cael eu codi ac yn gweitho yn yr ardal fyddai'n cael blaenoriaeth. Nid oes tai cyngor ar gael yn yr ardal am eu bod wedi cael eu gwerthu. Pe byddai hyn yn opsiwn byddai'n rhaid gwneud yn siwr bod polisi lleol mewn grym i wneud yn siwr mai pobl leol byddai'n cael cynnig y tai hyn. Mewn nifer o ardaloedd mae adeiladu tai wedi arwain at gynyddu niferoedd y mewnfudwyr i'r ardal a cholli ein pobl a'n teuluoedd ifanc – cylch na all cymunedau gwledig ei reoli na dylanwadu arno ar hyn o bryd. Ategir y sylwadau uchod drachefn: os yw'n fwriad i fwrw ymlaen â'r datblygiadau hyn yn y 3 safle uchod, mae'n hanfodol bwysig eu bod yn dai fforddiadwy er mwyn cadw ein pobl ifanc yn yr ardal. Modd llwyddiannus byddai cynnig tai ar rent. Pwy fydd yn cael y contract adeiladu? Yn aml mae'r rhain yn mynd i gwmnïoedd mawr, nid adeiladwyr lleol, felly ddim yn cefnogi'r economi leol. Beth am effaith y mewnlifiad ar ein diwylliant? Yn aml mae pobl o bant yn prynu, yn enwedig gyda phobl erbyn hyn yn gallu gweithio gartref, gan fod y tai yn llawer rhatach yn y parthau hyn o gymharu â'r ardaloedd maen nhw'n symud oddi wrthyn nhw. Mae'r effaith i'w weld yn amlwg ar ein cymuned a'i Chymreictod yn erydu o un ddegawd i'r llall. Mae cyfrifiad 2022 yn dangos bod 51% o drigolion Cilymaenllwyd yn siarad Cymraeg a 53% yn gallu siarad, darllen neu ysgrifennu Cymraeg. Gyda hyn mewn golwg, mae angen blaengynllunio cyfrifol a gofalus iawn a gosod polisïau fydd yn cefnogi pobl leol i allu aros yn lleol, yn hytrach na'u gwthio allan o fro eu mebyd. Mae angen i'r polisïau a'r cynlluniau fod yn rhai sydd wir yn gwarchod yr hyn sydd gyda ni; nid rhai sy'n cyfrannu at ddirywiad diwylliannol a ieithyddol pellach. Nid gwrthwynebiad i'r datblygiadau arfaethedig yw'r sylwadau hyn ond apêl cymuned am waith datblygu sydd yn sensitif i anghenion a chymeriad y gymuned; sy'n ychwanegu at gynaliadwyedd y gymuned; sy'n ateb anghenion ein pobl leol; nid gwaith datblygu a allai arwain at newid cymeriad unigryw'r gymuned. Mae Cyngor Cymuned Cilymaenllwyd yn awyddus i wneud y gymuned yn lle dymunol i'w phobl leol fyw a gweithio ynddi; cynyddu'r cyfleoedd i bobl allu cyfrannu'n gadarnhaol mewn ffordd gynaliadwy a diogel er mwyn gwarchod y gymuned ar gyfer y genhedlaeth nesaf. I allu gwneud hynny, rhaid i'r* | |

| Cyf | Ymgynghorai | Sylw Ymgynghorai (fel mewn italig) | Ymateb/Gweithredu |
|---|---|---|---|
| | | *Cynllun Datblygu Lleol allu cefnogi hynny. Teimlwn ei bod yn bwysig bod Cyngor Sir Caerfyrddin yn clywed llais cymuned Cilymaenllwyd ynglŷn â'r Cynllun Datblygu hwn, a mawr obeithiwn y bydd y sylwadau hyn yn cael ystyriaeth deilwng. Diolch yn fawr* | |
| ISAREP7 | Mr Havard Hughes [5475]<br><br>CRAiG [5827] | Crynodeb a ddarperir ar Opus:<br>*Gan fod angen i'r ACI roi ystyriaeth i effeithiau mabwysiadu'r CDLl Diwygiedig, yn ôl gwaelodlin y CDLl Cyfredol. Fodd bynnag, ni chyfeirir at Ardaloedd Tirwedd Arbennig ym mhrif destun yr ISA, nag yn Atodiadau'r ISA, y tu allan i'r Waelodlin a'r Rhestr Byrfoddau. Mae methu rhoi ystyriaeth i golli'r dynodiad hwn o'r CDLl yn gamsyniad mawr ac mae'n codi amheuaeth am hygrededd yr arfarniad o'r effeithiau disgwyliedig ar ACI9 – Tirwedd trwy gydol dogfen yr ACI ac mae'n codi amheuon am gadernid y Cynllun. Gweler y llythyr.*<br><br>Darn a gymerwyd o adran 5 (tudalennau 10-11) llythyr dyddiedig 14eg Ebrill:<br><br>***5. Digonolrwydd yr asesiad o'r Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig o ran Tirwedd:*** *Rydym yn lleisio pryderon sylweddol ynghylch cadernid yr asesiad a gynhaliwyd yn yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig ('ACI'). Mae'r Adroddiad Cwmpasu Arfarniad Cynaliadwyedd (a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2018) yn cyflwyno paramedrau'r Arfarniad Cynaliadwyedd, ac yn nodi Materion a Chyfleoedd Cynaliadwyedd, Amcanion Asesiad Cynaliadwyedd a Dylanwadau ar Benderfyniadau. Nododd hyn fod Tirwedd yn rhif 9 allan o gyfanswm o 15 mater cyfartal. Cyflwynir Mater 9 fel a ganlyn: 'Dynodwyd sawl safle yn rhai ag iddynt werth tirweddol neu drefweddol yn y sir. Mae angen gwarchod y nodweddion hyn, a'u gwella lle y gellir.' Yn y Dylanwadau ar Benderfyniadau, gofynnir y cwestiwn, A fydd y CDLl yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar dirweddau dynodedig?'.*<br><br>*Yr hyn sy'n cysylltu'r ddau ddyfyniad yma yw'r cyfeiriad penodol at 'dirweddau dynodedig', nid dynodiad statudol, na'r enw 'Dynodedig'. Mae Ardaloedd Tirwedd Arbennig yn cael eu hystyried yn dirweddau dynodedig yn y diffiniad hwn. Mae hynny'n wir mewn awdurdodau cynllunio lleol cymharol yng Nghymru, ac mae PPW11* | Mae perthnasedd a defnyddioldeb cyfoes dynodiad ATA yn fater dadleuol yn y system gynllunio. Mae ymchwil yn dangos ei bod yn debygol fod dynodiad ATA fel offeryn ar gyfer hyrwyddo gwarchod tirwedd ac ystyriaeth ddyladwy wedi dyddio, ac yn hytrach y dylai cymeriad tirwedd fod yn brif ystyriaeth.<br><br>Felly, mae'r cynigion a amlinellir yn y CDLld (o dan BHE2**) yn anelu at wreiddio dynesiad sir-gyfan mwy holistaidd ar gyfer gwarchod cymeriad y dirwedd, ac mae'n cael ei ystyried yn fwy cyson a pherthnasol i'r cyd-destun cynllunio presennol.<br><br>Er hynny, mae swyddogion yn cytuno fod absenoldeb sylwadau esboniadol yn amryfusedd yn yr SA a gyhoeddwyd ynghynt a'r gwerthusiad mwy diweddar yn yr ACI.<br><br>Dylid diwygio elfennau o'r ACI trwy gydol y ddogfen i adlewyrchu'r ystyriaeth a amlinellir yn y sylwadau hyn.<br><br>Dylai'r asesiad gynnwys sylwadau ynghylch cael gwared ag ACA fel dynodiad anstatudol, yn unol â Fframwaith yr ACI (h.y., y canllawiau penodol a gytunwyd yn wreiddiol ar gyfer ACI9).<br><br>Dylai sylwadau ddarparu gwerthusiad seiliedig ar dystiolaeth o werth dynodiad ATA, gan amlygu anfanteision adrannu yn seiliedig ar ffiniau y mae'r dynodiad o ATAoedd yn ei hyrwyddo ar hyn o bryd. |

| Cyf | Ymgynghorai | Sylw Ymgynghorai (fel mewn italig) | Ymateb/Gweithredu |
|---|---|---|---|
| | | *para 6.3.12 yn cyfeirio at 'dynodi Ardaloedd Tirwedd Arbennig' ac mae Polisi'r CDLl Cyfredol EQ6 yn datgan fod 'Ardaloedd Tirwedd Arbennig wedi'u dynodi…'. Felly, mae'n rhaid i gyfeiriadau at dirweddau dynodedig yn yr Asesiad Cynaliadwyedd roi ystyriaeth i ddynodiadau lleol yn ogystal â rhai statudol, gan gynnwys ATAoedd. Mae'r cwestiwn ynghylch 'a fydd y CDLl yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar dirweddau dynodedig?' a bod y CDLl Diwygiedig yn cael gwared ar rai o'r tirweddau dynodedig hyn, yn ystyriaeth bwysig ar gyfer yr asesiadau yn yr Arfarniad Cynaliadwyedd.*<br><br>*Y diffiniad o ddatblygu cynaliadwy yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yw'r 'broses o wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol, a diwylliannol Cymru drwy weithredu.' Dylid ystyried yn ofalus ac asesu'n drylwyr unrhyw newid i'r cynllun datblygu sy'n cael gwared ar rai tirweddau dynodedig yn ôl yr amodau y gwaredwyd y dynodiadau hynny, i ddangos nad yw'r newid yn amharu ar ddatblygu cynaliadwy.*<br><br>*Trown yn awr at y fersiwn ddiweddaraf o'r ACI, a gyhoeddwyd ym mis Chwefror 2023. Mae rhagfynegi effeithiau'r cynllun yn golygu adnabod newidiadau i'r waelodlin amgylcheddol. Amlinellir y waelodlin ar gyfer amcan cynaliadwyedd ACI9 - Tirwedd yn Atodiad B yr ACI (tud.61-67) gydag asesiadau gwaelodlin eraill. Mae'r waelodlin hon yn cynnwys paragraff agoriadol yn esbonio fod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog y tu allan i ffiniau'r CDLl, ynghyd â chopi llawn o asesiad Atodiad 4 y CDLl Cyfredol Ardaloedd Tirwedd Arbennig, cyn mynd ymlaen i amlinellu'r 'Effaith a ragfynegir heb weithredu'r CDLl'.*<br><br>*Yn ein barn ni, cafodd yr asesiad o effeithiau disgwyliedig ei gynnal yn anghywir. Mae'r effeithiau disgwyliedig yn cyfeirio at gynefinoedd a rhywogaethau gwarchodedig ac at fioamrywiaeth, sy'n cael eu hasesu o dan ACI2 Bioamrywiaeth, ac sy'n methu cynnig barn ddigonol ar newidiadau i dirwedd fel nodwedd ynddo'i hun. Ffactor allweddol yw bod yr asesiad hwn yn methu nodi y bydd y tirweddau* | Mae'n hollbwysig fod yr asesiad yn ystyried os/sut y mae cynigion a gynhwysir yn y CDLld yn darparu gwell llwyfan ar gyfer lliniaru pwysau datblygiadau cyfoes.<br><br>Bydd CCA atodol (a gefnogir gan ganfyddiad Asesiad Cymeriad Tirwedd ledled y sir fydd yn defnyddio methodoleg gadarn) yn adnabod a disgrifio ardaloedd a chanddynt gymeriad tirwedd arbennig.<br><br>O'u hystyried yn holistaidd, gyda'r polisïau sydd wedi'u mewnosod, gallai datblygiadau a gynlluniwyd yn dda wneud cyfraniad cadarnhaol i'r dirwedd ac i'r cymeriad gweledol (d), a chynnal a gwella neu adfer nodweddion presennol yng nghymeriad y dirwedd (e).<br><br>Cyfeirir at Gyf 9. |

| Cyf | Ymgynghorai | Sylw Ymgynghorai (fel mewn italig) | Ymateb/Gweithredu |
|---|---|---|---|
| | | *dynodiad lleol, ATAoedd, yn parhau i fod yn weithredol unwaith y daw cyfnod y Cynllun i ben. Mae hyn, yn ein barn ni, yn hepgoriad o bwys, yn enwedig felly o ystyried fod y geiriad ar y waelodlin yn cynnwys disgrifiadau o Ardaloedd Tirwedd Arbennig ac yn asesu ardaloedd y nodir eu bod yn 'deilwng o'r warchodaeth y mae dynodiad ATAoedd yn ei chynnig.'*<br><br>*Mae Adran 4 yr ACI yn cyflwyno crynodeb o'r waelodlin amgylcheddol ac effeithiau a ragfynegir, gan nodi fod y waelodlin i'r dyfodol ar gyfer tirwedd yn gostwng. Mae'r crynodeb hwn yn cynnig crynodeb cryfach o'r effaith debygol ar dirwedd na'r un a gyflwynwyd yn Atodiad yr ACI, ac mae'n datgan yn glir 'y dylid cryfhau camau gwarchod tirwedd'. Gan y cynigir yr asesiad hwn ar y sail fod y CDLl Cyfredol yn parhau i fod yn weithredol, mae'n rhaid ystyried yr angen am gamau i gryfhau gwarchod y dirwedd, yn ychwanegol at y rhai sydd ar waith yn barod, gan gynnwys yr ATAoedd dynodedig.*<br><br>*Gan fod angen i'r ACI roi ystyriaeth i effeithiau mabwysiadu'r CDLl Diwygiedig, yn ôl gwaelodlin y CDLl Cyfredol, gellid disgwyl rhyw gymaint o asesu effaith cael gwared ar yr ACAoedd dynodedig lleol yn yr ACI. Fodd bynnag, ni chyfeirir at Ardaloedd Tirwedd Arbennig ym mhrif destun yr ISA, nag yn Atodiadau'r ISA, y tu allan i'r Waelodlin a'r Rhestr Byrfoddau. Mae methu rhoi ystyriaeth i golli'r dynodiad hwn o'r CDLl yn gamsyniad mawr ac mae'n codi amheuaeth am hygrededd yr arfarniad o'r effeithiau disgwyliedig ar ACI9 - Tirwedd trwy gydol dogfen yr ACI ac mae'n codi amheuon am gadernid y Cynllun.* | |
| ISAREP8 | Mr Havard Hughes [5475]<br><br>CRAiG [5827] | Darn a gymerwyd o adran 5 (tudalen 11) llythyr dyddiedig 14eg Ebrill:<br>*Mae hefyd gamsyniadau a hepgoriadau eraill sy'n peri pryder. Un enghraifft yw'r adolygiad o SP16: Newid Hinsawdd a pholisïau penodol cysylltiedig eraill CCH1: Ynni Adnewyddadwy mewn Ardaloedd a Aseswyd o flaen Llaw ac Ardaloedd Chwilio Lleol a CCH2: Ynni Adnewyddadwy y tu Allan i Ardaloedd a Aseswyd o flaen Llaw ac Ardaloedd Chwilio Lleol, yn Atodiadau F a G. Mae'r arfarniad yn barnu fod* | Mae swyddogion yn cytuno bod angen ailraddio ACI-9 (tirwedd) ar gyfer SP16 (a gynhwysir yn Atodiad F; Tudalen 50-51). Mae SP16 yn ddatganiad polisi cyffredinol, ac er ei fod yn cefnogi rhai mathau o gynigion, nid yw'n cynnwys cynigion ar gyfer datblygu (gan gynnwys tyrbinau gwynt). Mae amwynder gweledol a gwerth tirwedd eisoes yn ystyriaethau penodol yn CCH2 (Atodiad G; Tudalen 56-58). |

| Cyf | Ymgynghorai | Sylw Ymgynghorai (fel mewn italig) | Ymateb/Gweithredu |
|---|---|---|---|
| | | *yr effeithiau ar dirwedd yn 'niwtral' a bod iddynt 'effeithiau cadarnhaol a negyddol'. Nid yw hyn yn gredadwy o ystyried maint y newid a fwriedir i'r diwedd ar sail y targedau newydd ar gyfer datblygiadau cynhyrchu ynni gwynt newydd erbyn 2033, a'r targed hwn a osodwyd yng nghyd-destun cael gwared ar yr ATAoedd o'r CDLl. Dylid adnabod effaith negyddol. Mae a ddylai'r effaith negyddol fod yn dderbyniol at ei gilydd yn brawf sydd ar wahân i'r rhan benodol hon o'r ACI. Er mwyn bod yn gredadwy dylai'r ACI roi ystyriaeth i faint y newidiadau, bwriad y Cynllun i gael gwared â'r tirweddau ATA dynodedig, ac effaith nodweddion, gan gynnwys maint effeithiau cronnol, eu maint a'u tebygolrwydd arbennig; sydd oll yn uchel eu heffaith ac yn debygol.* | Mae'n bwysig nodi nad yw polisïau CCH1/2 yn cynnig datblygiadau ynni adnewyddadwy penodol; yn hytrach, maent yn diffinio'r paramedrau ar gyfer asesu ceisiadau cysylltiedig, Hefyd, nid yw'r CDLld yn gosod targedau ar gyfer nifer na maint cynigion ynni gwynt.<br><br>Mae Sir Gaerfyrddin yn cynnwys un Ardal a Aseswyd o flaen Llaw ar gyfer Ynni Gwynt fel y nodir yn Cymru'r Dyfodol (fel y nodir yn yr ACI). Byddai unrhyw gynnig ar gyfer unrhyw ddatblygiad ynni gwynt ar raddfa fawr fel a ddisgrifir yn CCH1 yn cael eu hystyried yn Ddatblygiad o Arwyddocâd Cenedlaethol (DNS) ac, yn hynny o beth, byddai'r ceisiadau cynllunio hyn yn cael eu penderfynu gan Weinidogion Cymru. Fel y nodwyd ymhellach yn Cymru'r Dyfodol, mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi modelu'r effaith debygol ar y dirwedd ac mae wedi barnu y gallent gymryd datblygiad mewn ffordd dderbyniol (ar yr amod y cydymffurfir â meini prawf a gyflwynir ym Mholisi 18 [sydd, o blith nifer o gamau ataliol, yn sicrhau na fydd unrhyw effeithiau gweledol andwyol annerbyniol yn effeithio ar gymunedau cyfagos ac anheddiad/aneddiadau unigol]).<br><br>Darparu sylwadau esboniadol ar gyfer asesu ACI9 yn SP16 (Atodiad F; Tudalen 50-51).<br>Cyfeirir at Gyf 8, 10, 11. |
| ISAREP9 | Megis uchod | Darn a gymerwyd o adran 5 (tudalen 11) llythyr dyddiedig 14eg Ebrill:<br>*Enghraifft arall yw'r adolygiad o SP14: Cynnal a Gwella'r Amgylchedd Naturiol, lle y mae'r sylwadau yn yr arfarniad yn erbyn ACI9 yn datgan 'Mae'r polisi hwn yn cyfeirio'n uniongyrchol at warchod a chyfoethogi tirwedd Sir Gaerfyrddin' (ACI Atodiad F, t.46). Nid yw'r polisi hwn yn gwneud yr hyn a honna'r arfarniad. Cyfeirir y warchodaeth a'r cryfhau at yr amgylchedd naturiol yn fwy cyffredinol, ac nid yw'n bolisi a gysylltir yn ôl at ACI9 yn ei amcanion monitro, ac mae'n cyfeirio'n fwy cyffredinol at ddryswch trwy gydol y CDLl Diwygiedig rhwng cymeriad tirwedd fel cyfanwaith cynhenid a chyfan yn erbyn agweddau ar raddfa lai sy'n* | Dylid diweddaru'r geiriad esboniadol yn unol â hynny ond ni ddylid newid y graddio.<br><br>Cyfeirir at Gyf 7. |

| Cyf | Ymgynghorai | Sylw Ymgynghorai (fel mewn italig) | Ymateb/Gweithredu |
|---|---|---|---|
| | | *ffurfio'r amgylchedd naturiol, sydd er hynny'n bwysig, ond yn sylfaenol wahanol.* | |
| ISAREP10 | Gayle Lister [5815]<br><br>APCASB [1167] | Darn a gymerwyd o dudalen 5 llythyr dyddiedig 11eg Ebrill:<br>*Atodiad E: Opsiynau Twf*<br>*CDLI Adneuo 1af Opsiwn Twf a Ffefrir: angen gwirio'r arlliwio ar gyfer ACI3. Mae'r arfarniad yn '+/-'ac mae'r arlliwio yn cyfleu mân effaith negyddol yn hytrach na melyn effaith gadarnhaol a negyddol.* | Dylid cywiro'r arlliwio yn ôl y galw.<br><br>Cyfeirir at Gyf 4. |
| ISAREP11 | Megis uchod | *Atodiad F: ACI Polisïau Strategol*<br>*SP 2: Manwerthu a Chanol Trefi: Mae Amcan 1 yr ACI yn cynnig asesiad cadarnhaol ond dim sylwebaeth.* | Dylid darparu geiriad esboniadol.<br>Mae'r polisi yn cydnabod nodweddion darpariaeth mewn hierarchaeth draddodiadol yn amrywio o ddarpariaeth leol ac ymlaen i ganolfannau poblogaeth mwy. Mae cynigion ar gyfer datblygiadau manwerthu a mathau eraill o ddefnydd o ganol trefi yn debygol o greu cyfleoedd cyflogaeth a hamdden fydd yn gwneud cyfraniad cadarnhaol i economi gynaliadwy a chynhwysiant cymdeithasol.<br><br>Cyfeirir at Gyf 5. |
| ISAREP12 | Megis uchod | *SP 10: Mae Darpariaeth ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr: Amcan 8 yr ACI yn niwtral. Allai hyn fod yn gadarnhaol gan fod darparu safleoedd yn cynnal diwylliant Sipsiwn a Theithwyr?* | Newid yr arfarniad ar sail hynny a chynnig esboniad.<br><br>Cyfeirir at Gyf 6. |

**Tabl 2. Crynodeb o ymatebion i'r ymgynghoriad ar yr ARC. Mae'r cyfeirnodau yn cyfeirio at Atodiad A 2il Adendwm yr ARC (Chwefror 2024).**

| Cyf | Ymgynghorai | Sylw Ymgynghorai (mewn italig) | Ymateb/Gweithredu |
|---|---|---|---|
| HRAREP1 | Sharon Luke [3253]<br><br>Cyfoeth Naturiol Cymru [3252] | Darn a gymerwyd o adran 3 (tudalen 20) llythyr dyddiedig 14eg Ebrill:<br>*O ran paragraff 3.2.17, a sgrinio allan yr opsiwn twf strategol a ffefrir a ddiweddarwyd ar y sail ei fod yn fwy priodol asesu goblygiadau newid y darperir ar ei gyfer gan y fframwaith hwn o dan bolisïau diweddarach, mwy penodol a ddefnyddir i weithredu twf. Mae'n bwysig nodi yr aiff y llyfryn ARhC a ddyfynnir ymlaen i ddweud y dylai'r asesiad nodi o dan yr ymresymiad am yr asesiad fod unrhyw effeithiau posib yn cael eu hasesu beth bynnag trwy bolisi penodol, er enghraifft 'ond asesir goblygiadau o dan bolisi xx isod'. Fodd bynnag, ni ellir diystyru'n llwyr y posibilrwydd y gallai symbylydd am effaith arwyddocaol fod yn amcan (yn hytrach nag yn bolisi diweddarach) nad yw'n cael ei ddatblygu ymhellach yn y cynllun, ac os yw un yn digwydd dylid ei sgrinio i mewn i gael ei asesu ymhellach (neu ei ddiwygio'n gyflym). Felly, mae angen eglurhad o ran pa bolisi/polisïau penodol yn y CDLld sydd fwyaf addas ar gyfer asesu'r opsiwn twf strategol a ffefrir a ddiweddarwyd.* | Mae swyddogion yn cytuno â'r sylw hwn.<br><br>Mae angen cyfeirio'n benodol at y polisïau sydd fwyaf priodol ar gyfer asesu taniwr effeithiau yn gysylltiedig â'r opsiwn twf a ffafrir.<br><br>Dylid diwygio paragraff 3.2.17 i gynnwys y canlynol: "...y bydd twf yn cael ei weithredu drwyddynt (yn benodol, dyraniadau'r CDLl diwygiedig*)."<br><br>Mewnosod troednodyn newydd = * Mae Dyraniadau'r CDLl diwygiedig o hyn ymlaen yn cyfeirio at y safleoedd datblygu arfaethedig hynny a restrir o fewn Polisïau SG1: Safleoedd Adfywio a Defnydd Cymysg, SG2: Safleoedd Wrth Gefn, HOM1: Dyraniadau Tai, EME3: Cynigion Cyflogaeth, a SP10: Darpariaeth Sipsiwn a<br>Theithwyr.<br><br>Cyfeirir at Gyf 54. |
| HRAREP2 | Megis uchod | *Yn yr un modd, dylai Tabl 4 a pharagraff 3.2.20 ddarparu cysylltiadau clir â pholisïau penodol yn y CDLld lle y caiff y polisïau strategol eu hasesu.* | Megis uchod.<br><br>Diwygio paragraff 3.2.20 a Atodiad E ar sail hynny.<br><br>Cyfeirir at Gyf 55 a 57. |
| HRAREP3 | Megis uchod | *Hefyd, yn Nhabl 5, ar gyfer y polisïau penodol y cyfeirir atynt yn y ddwy res gyntaf, dywedir y barnwyd y byddai'n fwy priodol eu hasesu trwy'r dyraniadau penodol ar gyfer pob dalgylch ACA, ond nid oes unrhyw ddolenni i'r asesiadau hyn.* | Mae swyddogion yn cytuno â'r sylw hwn.<br><br>"…ynghylch pob dalgylch ACA (Dyraniadau'r CDLl diwygiedig)."<br><br>Cyfeirir at Gyf 58. |

| Cyf | Ymgynghorai | Sylw Ymgynghorai (mewn italig) | Ymateb/Gweithredu |
|---|---|---|---|
| HRAREP4 | Megis uchod | *O ran paragraff 3.2.28, mae'n aneglur a gafodd y 116 dyraniad y cyfeiriwyd atynt yn barod yn 'ymrwymiadau' (rhai a chanddynt ganiatâd cynllunio sy'n bodoli/llawn) ac sydd eisoes wedi cael eu hasesu o dan y Rheoliadau yn y cyfnod prosiect, gan gynnwys ymgynghori gyda CNC sef y Corff Cadwraeth Natur Priodol, a gynhaliwyd yr asesiad hwn a'r ymgynghoriad cysylltiedig cyn cyhoeddi'r adroddiad cydymffurfiaeth ffosfforws ym mis Ionawr 2021.* | Mae swyddogion yn cytuno â'r sylw hwn sy'n cyfeirio at gamgymeriad ffeithiol.<br><br>Newid paragraff 3.2.28.<br><br>Cyfeirir at Gyf 59. |
| HRAREP5 | Megis uchod | Darn a gymerwyd o sylwadau ar Atodiad C: Atodiad Asesu Ffosffadau (tudalen 20-21) mewn llythyr dyddiedig 14eg Ebrill//:<br>*Nid yw'n ymddangos fod Adran 4.3 yn cyfeirio'n glir at yr angen i ddiogelu camau sydd eu hangen i adfer yr ACA, i'w hatal rhag cael eu dihysbyddu a'u 'dileu', gan atal neu darfu ar waith adfer, neu'r potensial ar gyfer eu hadfer i'r dyfodol h.y., gwneud adfer yr ACA yn anoddach. Mae'r angen i osgoi hyn fod yn egwyddor allweddol a dylid cyfeirio ati.* | Mae swyddogion yn cytuno â'r sylw hwn.<br><br>Ychwanegu paragraff yn 5.6.1 yn datgan na ddylai'r gwaith lliniaru a ddisgrifir atal neu amharu ar waith adfer arall sy'n ceisio gwella cyflwr dalgylch yr ACA/corff dŵr.<br><br>Cyfeirir at Gyf 63. |
| HRAREP6 | Megis uchod | *Nid yw'n ymddangos fod y Datblygiad Graddol a amlinellir yn adran 4.3.2 wedi cael ei gysylltu â chyflawni cerrig milltir penodedig, a faint o amser fydd ei angen i gyflawni'r cerrig milltir hyn. Mae hon yn elfen allweddol o gyflawni niwtraliaeth maetholion ac o osgoi effeithiau andwyol, ac rydym yn awgrymu fod angen mwy o wybodaeth i gynnig hyder fod rhyddhau datblygiad yn cael ei gysylltu gyda chyflawni camau lliniaru sydd ynddynt eu hunain yn atal/gwaredu ffosfforws o gyrff dŵr mewn symiau cyfatebol.* | Mae swyddogion yn cytuno â'r sylw hwn.<br><br>Rydym eisoes wedi cynhyrchu'r graddoli ar gyfer lliniaru a chyflawni yn yr IAP, ond dylem newid yr ARhC i'w wneud yn gydnaws â hyn.<br><br>Dylai SBion barhau i sicrhau bod unrhyw newidiadau pellach i'r taflwybr tai yn gydnaws â'r datblygiad graddol a amlinellwyd yn yr IAP.<br><br>Cyfeirir at Gyf 63. |
| HRAREP7 | Megis uchod | *Mae'n ymddangos fod y cynigion ar gyfer gwlypdiroedd wedi'u hadeiladu yn nalgylch afon Teifi yn dibynnu'n bennaf ar Gyngor Sir Ceredigion (mae paragraff 4.4.2 yn cyfeirio at gefnogaeth a leisiwyd mewn cyfarfod ar y 15fed Rhagfyr 2022). Er y gellir dibynnu ar bolisi Rheoli Datblygu cadarn i sicrhau bod effeithiau andwyol yn cael eu hosgoi, mae cwestiynau ynghylch sicrwydd ac chyflawnadwyedd camau lliniaru allai fod eu hangen i hwyluso datblygiadau, os yw hynny'r tu hwnt i reolaeth eich Cyngor. Hefyd, mae angen rhoi peth ystyriaeth i leoliad, a'r risg yw mwy o redlif ar ben ucha'r ACA a gwlypdir wedi'i adeiladu yn cael gwared â ffosfforws ar waelod yr ACA, gan arwain at gynnydd net mewn lefelau ffosfforws dros ran helaeth o'r ACA. Nid yw'n ymddangos y cafodd y risg hon ei hystyried.* | Mae swyddogion yn cytuno â'r sylw hwn.<br><br>Cynhyrchwyd Sefyllfa Tir Cyffredin (SoCG) rhwng Awdurdodau Cynllunio Lleol cyfagos a budd-ddeiliaid allweddol eraill yn y cyfamser.<br><br>Integreiddio a chyfeirio'r SoCG yn yr ARC. Cynnwys esboniad ychwanegol ynghylch lleoliad y gwlypdiroedd ynghyd â diweddariadau diweddar i briodoli ffynonellau (e.e., Data SAGIS afon Tywi). |

| Cyf | Ymgynghorai | Sylw Ymgynghorai (mewn italig) | Ymateb/Gweithredu |
|---|---|---|---|
| | | | Datgan yn bendant fod rhaid cyflawni camau lliniarol yn unol â'r datblygiadau a fwriedir, gan sicrhau bod digon o ffosfforws yn cael ei dynnu allan cyn mynd mewn i gorff dŵr ACA.<br><br>Cyfeirir at Gyf 63. Ymhellach, cyfeirir at baragraffau 1.1.2 a 3.2.8 o 2il Adendwm yr ARC, yn ogystal â pharagraff 5.5.3 o Atodiad C cysylltiedig. |
| HRAREP8 | Megis uchod | *Mae angen eglurder ar sawl mater ac mae angen gwneud cryn dipyn o waith ychwanegol o ran datblygu a chytuno'r camau lliniarol sydd eu hangen. O'r herwydd, ar hyn o bryd, nid ydym yn credu ei bod yn bosib barnu gyda sicrwydd priodol na fydd yr 2il CDLld Adneuo yn cael effaith andwyol ar integriti'r ACAoedd afonydd ac nid yw felly'n bodloni prawf cadernid.* | Mae'r sylw a wnaed gan y SCNB yn amlygu cadernid y cynllun yng nghyd-destun ACAoedd afonol. Er hynny, mae disgwyl i fwy o waith i gadarnhau'r trefniadau cywirol o fewn yr ARhC (a chasgliad o ddogfennau ategol e.e. IAP) fynd i'r afael â'r sylw hwn.<br><br>Mae disgwyl i fwy o waith i gadarnhau'r trefniadau cywirol o fewn yr ARC (a chasgliad o ddogfennau ategol e.e. IAP) fynd i'r afael â'r sylw hwn.<br><br>Cadw at yr ymatebion a gytunwyd a gwreiddio'r camau.<br><br>Cyfeirir at Gyf 63. |
| HRAREP9 | Neil Hemington [5816]<br><br>Llywodraeth Cymru [2782] | Nodir fod ffosffadau yn fater craidd Categori C y mae angen mynd i'r afael ag ef (h.y., *mae'n ymddangos fod diffyg sicrwydd neu eglurder*). | Mae'r sylw hwn yn cadarnhau'r angen i barhau i gynhyrchu'r Cynllun Gweithredu.<br><br>Nid yw sylw o'r fath yn gwbl annisgwyl o gofio natur ddatblygol y ddogfennaeth gysylltiedig sy'n darparu manylion am y ffordd yr aethpwyd ati i gywiro'r effeithiau a nodwyd yn Atodiad yr ARC. |
| HRAREP10 | Megis uchod | Darn a gymerwyd o dudalennau 13-14 llythyr dyddiedig 12fed Ebrill:<br>*Ym mis Ionawr 2021, cyhoeddodd Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) dystiolaeth yn dangos fod dros 60% o gyrff dŵr Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA) afonol wedi methu cyrraedd safonau ffosfforws. Oherwydd y methiannau hyn, cyhoeddodd CNC gyngor cynllunio i osgoi rhagor o ddirywiad mewn capasiti amgylcheddol pan mae gan ddatblygiadau newydd y potensial i effeithio ar ACAoedd afonol sy'n sensitif i ffosfforws a sicrhau 'niwtraliaeth maetholion'.* | Cydnabuwyd y Sylw. |

| Cyf | Ymgynghorai | Sylw Ymgynghorai (mewn italig) | Ymateb/Gweithredu |
|---|---|---|---|
| HRAREP11 | Megis uchod | *Mae'r cyngor gan CNC yn ymwneud ag ACAoedd afonol y mae eu dalgylchoedd draenio yn ymestyn i mewn i Sir Gaerfyrddin, sef Afon Teifi, Afon Tywi, Afon Cleddau, Afon Gwy ac Afon Wysg. O'r pum corff dŵr yma, dim ond dau sy'n cael eu heffeithio gan y dyraniadau tai a fwriedir yn y cynllun fydd yn draenio i Afon Teifi neu Afon Tywi.* | Cydnabuwyd y Sylw. |
| HRAREP12 | Megis uchod | *Mae'r Cyngor wedi ceisio lleihau nifer y dyraniadau tai yn Afon Tywi i chwe safle  (102 uned) a phymtheg safle (189 uned) yn Afon Teifi. Mae effaith y gostyngiadau hyn wedi lleihau lefelau ffosfforws 43% a 49% yn y ddau gorff dŵr. Mae'r gostyngiad hwn, ynghyd â newidiadau i Bolisi CCH4 ac argaeledd tir ar gyfer y posibilrwydd o greu gwlypdiroedd i hyrwyddo proses naturiol o dderbyniad ffosffadau yn Sir Gaerfyrddin, wedi cael eu sgrinio fel rhan o Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd y Cyngor (Chwefror 2023) a daethpwyd i'r casgliad na fydd y cynllun yn cael unrhyw effaith andwyol ar integriti safleoedd Ewropeaidd. Mater i gyrff statudol CNC a Dŵr Cymru yw cyflwyno sylwadau manylach ar ddarparu safleoedd dyranedig a chyflwyno camau lliniaru hirdymor.* | Cydnabuwyd y Sylw. |
| HRAREP13 | Dewi Griffiths [5826]<br><br>Dŵr Cymru Welsh Water [1158] | Cymerwyd y darnau canlynol o sylwadau o dan CCH4, er eu bod yn berthnasol yn ehangach i'r ARC trwy ffosffadau:<br>*O ran gwella ansawdd dŵr, rydym yn buddsoddi £60m ychwanegol yn benodol i leihau ffosffadau yn y bum afon sy'n methu mewn Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA) yn ein hardal weithredu. Mae hyn yn cynnwys cynlluniau yn  WwTW Llanbedr Pont Steffan a Llanybydder ddylai gael eu cwblhau erbyn mis Mawrth 2025.  Yn y cyfnod buddsoddi nesaf 2025 i 2030 (AMP8) byddwn yn targedu buddsoddiadau gyda'r bwriad na fydd yr un o'n WwTW yn achosi methiant ecolegol. Trwy ein cynllun buddsoddiadau ffosfforws, rydym wedi tynnu 90% o'r llwyth ffosfforws o'n gorsafoedd WwTW sy'n arllwys i afonydd ACA sy'n methu, gan chwarae ein rhan yn y gwaith o alluogi'r afonydd arbennig hyn i gyrraedd eu targedau ansawdd dŵr ac i leddfu pwysau ar gyfyngiadau datblygu. Rydym yn disgwyl cwblhau'r rhaglen waith hon erbyn 2032.  Er y bydd ein buddsoddiad yn cael gwared â swm arwyddocaol o ffosfforws o'n carthffosiaeth, ni fydd fel arfer yn golygu ar ei ben ei hun y bydd ACAoedd yn cyrraedd eu targedau ansawdd dŵr. Nid yw hyn yn rhywbeth y gall Dŵr Cymru ei wneud ar ei ben ei hun, a bydd angen cydymdrechion yr holl sectorau cyfrannol i gyflawni hyn.* | Cydnabuwyd y Sylw. |

| Cyf | Ymgynghorai | Sylw Ymgynghorai (mewn italig) | Ymateb/Gweithredu |
|---|---|---|---|
| HRAREP14 | Megis uchod | *Byddwn yn gweithio gyda'n rheoleiddwyr ac awdurdodau cynllunio lleol trwy Fyrddau Rheoli Maetholion afon Tywi ac afon Teifi, sy'n gallu cynnig y llywodraethiant, y cyfeiriad strategol a'r wybodaeth/penderfyniadau lleol sydd eu hangen os ydym yn mynd i lwyddo i leddfu'r pwysau ar gyfyngiadau cynllunio ac adfer ansawdd afonydd.* | Cydnabuwyd y Sylw. |
| HRAREP15 | Gayle Lister [5815]<br><br>APCASB [1167] | Darn a gymerwyd o dudalen 5 llythyr dyddiedig 11eg Ebrill:<br>*Diolch ichi am ystyried ac ymgorffori sylwadau APCASB ar yr Adroddiad Asesu Rheoliadau Cynefinoedd (2020) fel y'u nodir yn yr atodiadau i adroddiad yr Atodiad Asesu Rheoliadau Cynefinoedd.* | Cydnabuwyd y Sylw. |
| HRAREP16 | Megis uchod | *4.3 Cynllun gweithredu interim - tir ar gael ar gyfer gwlypdiroedd yr adeiladwyd arnynt.*<br>*Awgrymir y byddai'n fuddiol cynnwys trafodaeth ar y defnydd presennol o'r tiroedd a nodwyd (e.e. i sicrhau nad yw tir ag iddo werth cadwraeth natur ar hyn o bryd neu botensial yn cael ei ystyried mwyach).*<br>*Pwyntiau trafod eraill:*<br>*Nid oes gennym ddealltwriaeth dda iawn o'r defnydd hirdymor o wlypdiroedd fel sinciau maetholion.*<br>*Gallai gallu gwlypdiroedd i gael gwared â maetholion gael ei ddylanwadu gan sefyllfaoedd newid hinsawdd, e.e. sychu, digwyddiadau llifogydd.* | Bydd yr ystyriaethau hyn yn cael eu hymgorffori mewn gwaith a wneir yn y dyfodol.<br><br>Er nad yw'r sylw hwn yn ymwneud â'r ARC ei hun, ymdrinnir ag ef yn unol â hynny yn y Cynllun Gweithredu. |
| HRAREP17 | Megis uchod | *Tudalen 8 (PPP) – er na chafodd ei fabwysiadu eto, nodwn y daeth yr ymgynghoriad ar ddrafft Gynllun Rheoli Adnoddau Dŵr 2024 Dŵr Cymru Welsh Water i ben yn ddiweddar (Chwefror 2023)* | Diweddariadau gwaelodlin.<br><br>Gwneud y newidiadau perthnasol. |
| HRAREP18 | Megis uchod | *Gwallau teipio*<br>*"3.2.15 'screened out screened out'*<br>*3.3.2 'unlikely to have a significant effects'*<br>*4.2.17 'there are important'*<br>*4.2.20 'which can demonstrate not cause the failure'*<br>*4.3.1 'ready in conjunction'* | Camgymeriadau swyddog.<br><br>Gwneud y newidiadau perthnasol.<br><br>Cyfeirir at Gyf 64. |

Yn ogystal â'r ymatebion uchod, cyfeiriodd CNC hefyd at ddau newid i eiriad polisi a awgrymwyd yn Atodiad yr ARhC (INF5 a CCH4). Ar y pryd, roedd cyfyngiadau'n rhwystro'r rhain rhag cael eu cynnwys yn y CDLl. Argymhellir hefyd y dylid gwneud y newidiadau hyn i'r polisi er mwyn mynd i'r afael â'r pryderon a amlinellwyd yn wreiddiol yn Atodiad yr ARC.

**Tudalen yn wag yn fwriadol**